# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Y Frondeg**

**Y Frondeg**
**Maesincla**
**Caernarfon**
**LL55 1PS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

## 9 Medi 2024

06/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Y Frondeg

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Gwynedd |
| Lleoedd cofrestredig | 11 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 21 Mawrth 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r bobl sy'n byw yn Y Frondeg yn cael gofal gan grŵp sefydlog o staff sy'n gyfarwydd iawn â'u hanghenion. Caiff y bobl eu cefnogi i fyw eu bywydau mewn ffordd mor egnïol â phosibl ac i gymryd rhan lawn yn y gymuned leol. Mae'r pobl yn cael gwneud dewisiadau bob dydd a chaiff eu lleisiau eu clywed o ran eu gofal. Dywedodd y bobl a'r staff gofal wrthym fod awyrgylch cynnes a theuluol yn y cartref a bod y bobl yn cael eu trin â pharch.

Caiff gofal ei gynllunio yn unol ag anghenion pob unigolyn, ei ddewisiadau a'r lefel o gymorth sydd ei angen arno i fyw bywyd llawn. Caiff y bobl eu galluogi i fod mor iach â phosibl ac i fynychu apwyntiadau gofal iechyd. Mae'r staff yn trefnu help meddygol ac arbenigol mewn modd amserol pan fo'i angen ar y bobl.

Mae gan y bobl lawer o ddewis a rheolaeth dros eu hamgylchedd ac mae'r ystafelloedd gwely a'r lolfeydd wedi'u personoli'n sylweddol. Mae'r gwasanaeth yn ystyried gofynion iechyd a diogelwch er mwyn cadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Mae'r cyfarpar sydd ei angen ar gyfer eu gofal ar gael i'r bobl ac yn cael ei gynnal a'i gadw a'i wasanaethu'n effeithiol.

Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael cymorth a hyfforddiant da i'w galluogi i gyflawni eu rôl. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw bod aelodau'r tîm rheoli yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt. Mae'r staff gofal yn gyfarwydd â'r Unigolyn Cyfrifol, a gwelsom ei fod yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd i brofi ansawdd y gwasanaeth fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth.


## Llesiant

Caiff hawliau'r bobl eu diogelu ac mae ganddynt reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gwnaethom siarad â hapsampl o'r bobl sy'n byw yn y cartref ac aelodau o'u teuluoedd. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael a'u bod yn teimlo eu bod yn gallu gwneud dewisiadau dyddiol a bod ganddynt reolaeth dros eu bywydau. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn canolbwyntio ar anghenion y bobl a'r drefn o ddydd i ddydd sydd orau ganddynt. Mae gan y bobl broffiliau personol sy'n disgrifio eu trefn arferol yn ystod y dydd a chyda'r nos, ac sy'n nodi'r bobl sy'n bwysig iddynt a'r dulliau y gall y staff eu defnyddio i dawelu eu pryderon. Mae'r rheolwr wedi cyflwyno dogfen ar ffurf crynodeb sy'n nodi dewisiadau ac anghenion y bobl y gall aelodau newydd o staff a staff asiantaeth ei defnyddio i ddod yn gyfarwydd ag anghenion y bobl yn gyflym. Gwelsom o'r cofnodion hyfforddiant fod y staff wedi cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf sy'n eu galluogi i roi gwybod am unrhyw faterion sy'n peri pryder iddynt o ran gofal y bobl er mwyn eu cadw'n ddiogel. Gwelsom fod gan y bobl a'r staff gydberthynas dda a chaiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Dywedodd aelod o'r staff, *“rydym fel teulu”.* Mae pob aelod o'r staff yn gallu siarad Cymraeg, a chaiff llawer o'r bobl eu cefnogi drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â'u dewis.

Mae llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl yn cael eu hystyried wrth roi gofal iddynt. Roedd y cynlluniau personol yn dangos tystiolaeth bod y bobl yn cael eu cefnogi i fynychu apwyntiadau ac adolygiadau gofal iechyd yn ôl yr angen. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael cymorth i fynd i weld y meddyg teulu yn ôl yr angen ac mewn modd amserol. Dywedodd un unigolyn wrthym ei fod yn mynd i nofio bob dydd, a gwelsom bobl eraill yn mynd allan am dro.

Gall y bobl wneud pethau sy'n eu gwneud yn hapus. Dywedodd un unigolyn wrthym am nifer o ddyddiau allan a gafodd yn ystod yr haf a dangosodd ffotograffau i ni. Gwelsom fod gan y bobl ddeunyddiau i gefnogi eu hobïau a'u diddordebau yn eu hystafelloedd. Caiff y bobl eu hannog i gael anifeiliaid anwes ac mae'r staff yn eu helpu i'w bwydo a'u cadw'n lân ac i fynd â nhw i apwyntiadau gyda'r milfeddyg. Gall y bobl fynychu gwasanaethau dydd os byddant am wneud hynny a gallant fynd allan gyda ffrindiau a theulu. Mae'r bobl yn aelodau gweithgar o'r gymuned leol o hyd, maent yn mynd i siopa yn lleol ac yn mynychu digwyddiadau sydd o ddiddordeb iddynt.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n cefnogi eu llesiant. Gwelsom fod ystafelloedd y bobl yn fawr ac wedi'u haddurno'n unol â'u dymuniadau. Mae pob ystafell yn unigryw i'r unigolyn. Gall y bobl ddefnyddio'r lolfeydd preifat os byddant am wneud hynny i dreulio amser ar eu pen eu hunain neu yng nghwmni ymwelwyr. Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor annibynnol â phosibl; mae rhai pobl yn glanhau ac yn golchi eu dillad eu hunain.

Gwnaethom ofyn i unigolyn a oedd yn fodlon ar ei ystafell, ac atebodd gan ddweud, *“I’m like a queen here.”*

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal sy'n ystyriol o'u dymuniadau personol, eu dyheadau a'u canlyniadau. Caiff y bobl eu cefnogi i drefnu adolygiadau arbenigol fel sy'n ofynnol a chaiff eu cynlluniau personol eu diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau sydd eu hangen o ran eu gofal. Mae'r cynlluniau personol wedi'u hysgrifennu mewn ffordd glir ac maent yn adlewyrchu dymuniadau a nodau'r bobl. Mae asesiadau risg priodol ar waith i alluogi'r bobl i fod mor ddiogel â phosibl ond gan fod mor annibynnol â phosibl hefyd. Caiff y drefn sy'n well gan y bobl ei dilyn yn ystod y dydd a gyda'r nos ei chofnodi, yn ogystal â'r pethau sy'n bwysig iddynt. Caiff dulliau y gall y staff eu defnyddio i dawelu'r bobl pan fyddant yn ymddwyn mewn ffordd sy'n mynegi pryder ac unrhyw ysgogiadau hysbys eu cofnodi. Dywedodd aelodau o deulu unigolyn wrthym fod y gwasanaeth yn galluogi eu perthynas i ymweld â'r deintydd, yr optegydd a'r adran cleifion allanol ac i gael brechiadau. Gwelsom fod yr ymweliadau a'r canlyniadau hyn yn cael eu dogfennu'n ofalus yn y cynllun personol. Gwelsom fod y cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael gofal a chymorth priodol. Mae asesiadau cyn derbyn yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau y gall y cartref ddiwallu eu hanghenion. Mae dogfen trosglwyddo wedi'i chynnwys yn y cynlluniau personol sy'n disgrifio pa ofal a chymorth sydd eu hangen ar yr unigolyn pe byddai'n cael ei dderbyn i'r ysbyty. Mae hyn yn helpu i sicrhau parhad yn y gofal y mae'r bobl yn ei gael.

Gwelsom fod trefniadau da ar waith yn y cartref ar gyfer rhoi a storio meddyginiaeth a'u bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Lle roedd y bobl yn cymryd eu meddyginiaethau eu hunain, gwelsom fod hyn yn cael ei asesu a bod mesurau, polisi a gweithdrefn briodol ar waith er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud hynny'n ddiogel. Mae'r cynlluniau personol a gwybodaeth sensitif yn cael eu cadw mewn swyddfa dan glo er mwyn sicrhau cyfrinachedd. Rhoddir gwybod i'r awdurdodau perthnasol am unrhyw ddamweiniau a digwyddiadau. Mae'r staff gofal yn gallu disgrifio'r gweithdrefnau lleol sydd eu hangen er mwyn gwneud atgyfeiriad diogelu i gadw'r bobl yn ddiogel rhag niwed.

Mae'r cartref yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint yn dda. Gwelsom fod biniau pedal, sebon hylif a thywelion papur yn cael eu defnyddio yn y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi i annog arferion golchi dwylo da a lleihau achosion o halogi. Mae cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i'r staff gofal i'w diogelu nhw ac eraill rhag heintiau'n lledaenu. Mae'r amgylchedd yn lân ac yn daclus, ac mae'r gegin wedi cael sgôr hylendid o 5, sef y sgôr uchaf posibl. Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal arferion hylendid da ac i gadw eu hamgylchedd yn lân. Caiff y bobl eu hatgyfeirio at y meddyg teulu mewn modd amserol os byddant yn dangos arwyddion o haint.

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref yn darparu amgylchedd sy'n annog y bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Gwelsom fod ystafelloedd y bobl yn briodol er mwyn diwallu eu hanghenion gofal. Lle roedd angen i bobl ddefnyddio cyfarpar fel cadair olwyn a chymhorthion i aros yn sefydlog, gwelsom fod y cyfarpar hwn yn cael ei wasanaethu a'i gynnal a'i gadw'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Caiff y cyfarpar sydd ei angen er mwyn rhoi gofal i'r bobl ei ddogfennu yn eu cynlluniau gofal personol. Mae'r ystafelloedd yn fawr ac yn ddirwystr er mwyn sicrhau y gellir defnyddio cyfarpar. Lle bo angen, mae synwyryddion symudiadau yn yr ystafelloedd er mwyn lleihau'r risg o gwympo. Cynhelir asesiadau risg ar eu cyfer a chaiff yr asesiadau hyn eu cynnwys yng nghynlluniau gofal y bobl. Caiff y bobl eu cefnogi i gael cyfarpar a gwneir addasiadau rhesymol i'w hamgylchedd er mwyn sicrhau eu bod yn cael gofal diogel ac y gallant gyflawni canlyniadau da.

Mae'r darparwr yn nodi ac yn lliniaru risgiau iechyd a diogelwch cymaint â phosibl. Caiff y cyfarpar trydanol ei brofi bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn. Cafodd profion cyfleustodau a thystysgrifau fel tystysgrifau tân, trydan, dŵr a nwy eu cyflwyno ar gais. Roedd pob un yn gyfredol. Caiff cyfarpar ei wasanaethu'n unol ag argymhellion y gwneuthurwyr. Mae yswiriant yr adeilad yn gyfredol. Caiff y larymau tân eu profi bob wythnos, a chaiff y goleuadau argyfwng a'r allanfeydd tân eu gwirio'n rheolaidd. Mae gan y bobl gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng (PEEPS), i sicrhau y gallant adael yr adeilad yn ddiogel os bydd tân neu argyfwng.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol fesurau llywodraethu da ar waith i sicrhau bod y cartref yn cyrraedd y safonau disgwyliedig yn unol â'r ddeddfwriaeth. Mae'r gofal a roddir i'r bobl yn cael ei adlewyrchu yn Natganiad o Ddiben y cartref sy'n esbonio'r hyn y gall y bobl ei ddisgwyl gan y gwasanaeth. Mae dogfennau sy'n esbonio'r gwasanaeth ymhellach ar gael yn ddwyieithog ac mewn fformat hawdd ei ddeall er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn llunio adroddiad ar ei ganfyddiadau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol hefyd yn llunio adroddiad ansawdd mewn perthynas â'r gwasanaeth er mwyn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth ac yn gofyn am farn y bobl, eu teuluoedd a'r staff. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol a bod hyfforddiant ar gael i'w gefnogi yn ei rôl.

Dywedodd yr aelodau o staff gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod wrth eu bodd yn gweithio yn y cartref a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y tîm rheoli. Mae'r cofnodion yn nodi bod y gweithwyr cymorth gofal yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd gyda'r tîm rheoli i'w cefnogi a'u galluogi i gyflawni eu rôl. Mae'r staff gofal wedi cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf ar y cyfan. Caiff y matrics hyfforddiant ei gadw ar gyfrifiadur ac mae'r system yn rhoi gwybod i'r staff pan fydd hi'n bryd iddynt ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant. Gwelsom fod y rheolwr wedi trefnu sesiynau hyfforddiant pellach er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf.

Gwelsom fod trefniadau da ar waith yn y cartref ar gyfer recriwtio a chadw staff gofal. Mae ffeiliau personél y staff yn dangos bod gwiriadau priodol a chyfredol wedi'u cynnal ar gyfer y staff gofal, er mwyn sicrhau eu bod yn addas i weithio gydag oedolion agored i niwed. Mae aelodau newydd o staff yn cwblhau cyfnod sefydlu cadarn yn y cartref er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r bobl a'u hanghenion, a'u bod yn gwybod pa safonau y disgwylir iddynt eu cyrraedd.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/11/2024